# MESUR ADDYSG (CYMRU) 2009

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

### Rhan 1 – Apelau a Hawliadau Addysg gan Blant

### Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Mae adrannau 9-16 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

### *Adran 17 – Treialu hawliau plentyn i apelio neu i wneud hawliad*

79. Mae is-adran (1) yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i dreialu, am gyfnod o hyd at 40 mis, hawliau a roddir i blentyn o dan y Mesur hwn.

80. Mae is-adran (2) yn pennu y caiff rheoliadau a wnaed o dan is-adran (1) wneud darpariaeth:

- mai dim ond i blant y mae awdurdodau addysg lleol penodedig yn gyfrifol amdanynt y mae hawliau a roddir i blentyn gan y Mesur hwn mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig i fod yn gymwys;
- mai dim ond i awdurdodau addysg lleol penodedig y mae dyletswyddau a roddir ar awdurdodau addysg lleol gan y Mesur hwn mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig i fod yn gymwys;
- mai dim ond i gorff sy'n gyfrifol am ysgol mewn ardaloedd penodedig y mae hawliau a roddir i berson gan y Mesur hwn mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd i fod yn gymwys; ac
- mai dim ond i awdurdodau addysg lleol penodedig y mae dyletswyddau a roddir ar awdurdod addysg lleol gan y Mesur hwn mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd i fod yn gymwys.

81. Mae is-adran (2) hefyd yn caniatáu i reoliadau wneud darpariaeth i adroddiadau neu wybodaeth arall ar weithredu'r treialu gael eu darparu neu ei darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru.

82. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod adroddiad ar sut y gweithredwyd y cynllun treialu ac ar ba mor effeithiol oedd y cynllun treialu o ran hyrwyddo llesiant plant.

83. Mae is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod adroddiad o dan is-adran (3) cyn diwedd y cyfnod treialu a nodir yn y rheoliadau o dan is-adran (1) ar yr amod fod 12 mis o'r cyfnod treialu wedi mynd heibio.

84. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad o dan is-adran (3) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 30 mis i ddyfodiad y rheoliadau o dan is-adran (1) i rym.